ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2012 - 2016

| Mynegai | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 1 |
| Datganiad Cydraddoldeb gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 2 |
| Y Gyfraith a'r Sector Cyhoeddus | 3 |
| Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011 | 4 |
| Deddf Hawliau Dynol 1998 | 6 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Fframwaith Gwella Cydraddoldeb | 6 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 7 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 9 |
| Gwerthoedd Craidd | 11 |
| Ymgynghori ac Ymgysylltu | 12 |
| Asesu ar gyfer Asesiad Risg Cydraddoldeb | 12 |
| Monitro ac Adrodd ar Hynt y Cynllun Strategol hwn | 12 |
| Gweithdrefn Gwyno | 13 |
| Amcan 1 | 14 |
| Amcan 2 | 15 |
| Amcan 3 | 17 |
| Amcan 4 | 18 |
| Amcan 5 | 19 |
| Amcan 6 | 20 |
| Amcan 7 | 21 |
| Amcan 8 | 22 |
| Amcan 9 | 24 |
| Amcan 10 | 25 |
| Amcan 11 | 26 |

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi amcanion cydraddoldeb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru er mwyn ymateb i ofynion deddfwriaethol Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ofyniad cyfreithiol a fydd yn cael ei reoleiddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rôl y Comisiwn dan y gyfraith newydd yw amddiffyn, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb. Caiff y rôl ei chyflawni trwy ddarparu cyfarwyddwyd, rheoleiddio a gweithgarwch gorfodi.

Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, unwaith y bydd y cynllun wedi ei gyhoeddi, bydd yn cael ei adolygu heb fod yn hwyrach na phedair blynedd yn ddiweddarach, er y gall yr Awdurdod adolygu, diwygio neu ail-wneud unrhyw amcan unrhyw bryd. Mae'r cynllun yn amlinellu'r amcanion cydraddoldeb allweddol a nodwyd gan ein rhanddeiliaid, ac mae wedi ei lunio i adeiladu ar lwyddiannau ein Cynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yn ogystal â chyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol newydd. Nod y cynllun strategol yw cael gwelliannau gwirioneddol mewn canlyniadau i'n cwsmeriaid a'n staff.

Mae'r amcanion cydraddoldeb wedi eu cysoni â:

- Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus, a Rheoliadau Penodol 2011 (Cymru);
- Amcanion Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;
- Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Caiff y cynllun ei hysbysebu a'i hyrwyddo'n fewnol ac allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith yr ydym yn ei wneud. Bydd ein gweithgarwch yn cael ei fonitro er mwyn asesu effaith y caiff ein cynnydd ar y cyhoedd a'n gweithwyr, a chaiff ei adrodd yn flynyddol i'r Awdurdod.

Rhagwelir y bydd Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol fel offeryn asesu. Er mwyn cynorthwyo'r asesiad hwnnw, mae'r amcanion cydraddoldeb yn ymwneud â'r prif benawdau a ddefnyddir yn y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb.

Pwysigrwydd y Cynllun yw ei fod yn annog pawb i feddwl am anghenion gwahanol ein cymunedau. Wrth gyflwyno gwasanaeth i boblogaeth amrywiol, rydym yn sylweddoli bod gan bawb anghenion gwahanol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad parhaus i sicrhau parch a thegwch i drigolion, aelodau etholedig, aelodau o'r staff a holl ymwelwyr ag ardal Gogledd Cymru.

Yn y pen draw, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn golygu gosod dinasyddion wrth galon popeth a wnawn.

## Datganiad Cydraddoldeb gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb, i ddarparu gwasanaeth proffesiynol sy'n cofleidio amrywiaeth ac sy'n hybu cyfle cyfartal. Fel cyflogwr, mae hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a rhoi gwerth ar amrywiaeth o fewn y gweithlu. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn, sydd wedi eu hatgyfnerthu gan ein Gwerthoedd Craidd, wedi ei mewnblannu yn ein harferion gweithio o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid.

Byddwn yn darparu cyfle cyfartal, ac ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu ar sail:

> gender, hunaniaeth genderaidd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, hil, lliw, cenedligrwydd, crefydd, oedran, anabledd, patrwm gweithio, cyfrifoldebau gofalu, gweithgarwch undeb llafur neu unrhyw sail arall nad oes modd ei gyfiawnhau.

Mae ein polisïau a'n harferion yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gael gwared ar wahaniaethu, a hyrwyddo cyfle cyfartal. Trwy weithredu'r polisïau a'r arferion hyn, ein nod yw cynnal diwylliant lle nad yw rhagfarn a gwahaniaethu yn cael eu goddef, a lle bo staff yn gallu herio ymddygiad annerbyniol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i alluogi'r staff i gael cydbwysedd rhwng ymrwymiadau gwaith a'u bywydau y tu allan i'r gwaith. Rydym yn cydnabod y bydd staff sy'n gallu cael cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd gartref yn gallu darparu gwell gwasanaeth, a mwynhau gwell iechyd, bod yn frwdfrydig ac yn gallu rhoi eu gorau yn eu gwaith.

Mae gan bawb sy'n gweithio i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyfrifoldeb personol am weithredu a hyrwyddo'r egwyddorion hyn yn y modd y maent yn mynd ati o ddydd i ddydd i ddelio â'r cyhoedd, ei gilydd a'u partneriaid.

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi ymrwymo'n llwyr i gwrdd â'i gyfrifoldebau statudol dan y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau Cydraddoldeb.

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw Cynllun Cydraddoldeb Sengl cyntaf yr Awdurdod, ac mae'n amlinellu ein hymrwymiad i gael cydraddoldeb o fewn pob agwedd ar y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau ac yn ein harferion cyflogi.

**Simon A Smith**
**Prif Swyddog Tân**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Sharon Frobisher**
**Cadeirydd**
**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## Y Gyfraith a'r Sector Cyhoeddus

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011)

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gan gytgordio a chryfhau'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i:

- **Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf hon neu odani;**

- **Hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**

- **Hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion na ddylid eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig'.

Y nodweddion gwarchodedig yw:

- oedran;
- anabledd;
- hil:
- rhyw;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- ailbennu rhywedd;
- crefydd neu gred; a
- cyfeiriadedd rhywiol.

Gwahaniaeth yw trin rhywun yn waeth na rhywun arall oherwydd bod ganddynt un neu ragor o'r nodweddion hyn. Mae gan bob un ohonom rai o'r nodweddion hyn. Yn aml, ond nid bob amser, y rhain yw'r peth cyntaf yr ydym yn sylwi arno mewn pobl: boed yn hŷn neu'n iau, yn ddyn neu'n ddynes, os ydynt yn rhannu ein tarddiad ethnig neu os oes ganddynt anabledd y gallwn ei weld.

### Meysydd newydd y Ddeddf newydd

Mae'r Ddeddf yn darparu pwerau i ymestyn gwahaniaethu ar sail oedran y tu allan i'r gweithle.  Mae'n:

- Egluro gwarchod rhag gwahaniaethu trwy gysylltiad, er enghraifft mam sy'n gofalu am ei phlentyn anabl;
- Ymestyn yr amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd i ddisgyblion ysgol;

- Ymestyn amddiffyniad rhag gwahaniaethu mewn perthynas ag aelodaeth a buddion clybiau preifat a chymdeithasau;
- Creu dyletswydd unedig ar gyfer y sector cyhoeddus, gyda'r bwriad o hyrwyddo cydraddoldeb mewn polisi cyhoeddus a gwneud penderfyniadau, gan ymestyn y darpariaethau presennol i'r nodweddion gwarchodedig, sef cyfeiriadedd rhywiol, oedran a chrefydd neu gred, a chynnig dyletswydd newydd ar gyfer y sector cyhoeddus sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd;
- Darparu ar gyfer deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr adolygu gwahaniaethau mewn cyflogau rhwng y genderau o fewn eu sefydliad, a chyhoeddi'r canlyniadau;
- Darparu ar gyfer newidiadau i'r ffordd y mae ceisiadau unigol yn cael eu gorfodi, a rhoi pwerau lletach i dribiwnlysoedd cyflogaeth wneud argymhellion er lles gweithwyr ar y cyd;
- Caniatáu i un o Weinidogion y Goron yn y DU ddiwygio deddfwriaeth cydraddoldeb yn y DU i gydymffurio â chyfraith Ewropeaidd heb yr angen am ddeddfwriaeth gynradd;
- Ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio rhestrau byrion merched yn unig ar gyfer etholiadau seneddol neu rai eraill hyd at 2030, a chaniatáu i bleidiau gadw lleoedd ar restrau byrion ar gyfer pobl ar sail hil neu anabledd.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu diffiniadau o: wahaniaethu uniongyrchol; gwahaniaethau sy'n codi o anabledd; gwahaniaethu anuniongyrchol; aflonyddu a fictimeiddio.

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Dyletswyddau Penodol Cymru

Hefyd, mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) sy'n galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rheoliadau penodol yn cynnwys:

- Cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb;
- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- Sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael yn hawdd;
- Asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- Hyfforddi a chasglu gwybodaeth cyflogaeth;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg gweithwyr am y Ddeddf Cydraddoldeb;
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn cyflogau;
- Adolygu cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig;
- Darpariaethau arferion caffael.

Yn fras, diben y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw cynorthwyo cyrff i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

**Pwy sy'n dod dan y dyletswyddau penodol?**

Mae'r dyletswyddau penodol yn ymwneud â chyrff a restrir yng Nghymru. Nid ydynt yn ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus sydd heb eu datganoli ac sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, sy'n dod dan y ddyletswydd gyffredinol, hefyd yn dod dan y dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn nodi'r camau y mae'n rhaid i gyrff a restrir yng Nghymru eu cymryd er mwyn dangos eu bod yn talu sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

**Deddf Hawliau Dynol 1998**

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn darparu amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer hawliau sylfaenol bodau dynol, megis yr hawl i gael bywyd teuluol preifat, neu'r hawl i gael addysg.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i cyrff y sector cyhoeddus sicrhau eu bod yn gosod Hawliau Dynol wrth galon y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu datblygu a'u cyflwyno.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Fframwaith Gwella Cydraddoldeb**

Bydd gweithredu'r Fframwaith yn gymorth i gorff llywodraeth leol:


- Sicrhau cyflwyno gwasanaethau dinesydd-ganolog;
- Gwella canlyniadau i ddinasyddion lleol;
- Teilwra darparu gwasanaeth – deall yn well sut i greu gwasanaeth o amgylch yr angen mwyaf brys;
- Gwella effeithlonrwydd – defnyddio adnoddau cyfyngedig i'w botensial mwyaf;
- Adlewyrchu 'tegwch' wrth osod amcanion dan y Mesur Llywodraeth Leol;
- Ateb gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011;
- Priflifo cydraddoldeb i arferion gwaith bob-dydd;
- Cael gwelliant parhaus mewn cydraddoldeb;
- Cael gwell dealltwriaeth o'r modd y gallai unrhyw doriadau ariannol effeithio ar bobl neu grwpiau o bobl;
- Adnabod risg penodol i'r sefydliad sy'n gysylltiedig â materion cydraddoldeb;
- Gwella arferion caffael.

Prif nod y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb yw mewnblannu cydraddoldeb o fewn arferion gweithio llywodraeth leol. Mae hyn yn golygu bod darparu gwasanaethau ac arferion cyflogi mewn awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion pobl, gan ddarparu'r gorau y mae'n gallu ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb wedi ei ddylunio i fod yn drywydd ar gyfer creu gwelliant – nid rhestr benodol mohoni, gyda thasgau i'w 'ticio' nes bod pob blwch wedi ei gwblhau. Mae'n cyflwyno fframwaith i adeiladu arno, gyda'r materion a'r camau penodol a manwl yn cael eu hystyried yn lleol.

Felly, nid yw'n rhagnodi beth y dylid ei wneud, ond yn cynnig y dylai awdurdod lleol, os yw pob elfen yn y fframwaith a awgrymir yn cael eu hwynebu fel sy'n briodol, fod mewn sefyllfa gref i gyflwyno egwyddorion ac arferion cydraddoldeb sydd o safon dda. Bydd hyn yn rhoi cryn fanteision busnes, a hyder bod anghenion dinasyddion yn cael eu hystyried yn iawn, tra'n sicrhau hefyd fod cyfrifoldebau cyfreithiol yn cael eu cyflawni.

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru




**Map o Ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

### Yr Awdurdod Tân ac Achub

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri yng Nghymru. Rôl yr Awdurdod yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a Chynllun Cyfuno 1995;

- Cytuno ar gynlluniau blynyddol yr Awdurdod, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol;

- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn Ebrill 1996, ac mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Penderfynir ar nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ar sail poblogaeth.

| Awdurdod | Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2009 |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 111,353 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 68,768 |
| Cyngor Gwynedd | 118,767 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 96,732 |
| Cyngor Sir y Fflint | 149,923 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 133,207 |
| | |
| **Cyfanswm** | **678,750** |

Mae rôl yr Awdurdod yn cael ei ddiffinio mewn ystod o gyfreithiau a rheoliadau, ond mae'r Awdurdod yn wastad wedi ceisio gwella a helaethu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, a gwneud mwy na dim ond ateb y gofynion lleiaf.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella bywydau pobl mewn sawl ffordd wahanol.

Mae'r rhain yn cynnwys chwarae ei ran i ofalu bod:

- dinasyddion, gweithwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu byw bywydau hir ac iach;

- cymunedau cyfan yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau llawn;

- diwylliant, treftadaeth ac iaith yr ardal yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu byw bywydau cyfoethocach;

- dinasoedd, trefi a phentrefi yn cael eu diogelu, fel eu bod yn llefydd sy'n ffynnu yn economaidd ac yn gymdeithasol i fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;

- y cefn gwlad a'r arfordir yn cael eu diogelu, fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu cynefinoedd naturiol, a bod yn llefydd sy'n rhoi boddhad i bobl fyw ynddynt, gweithio ynddynt ac ymweld â hwy;

- cartrefi unigol yn cael eu diogelu, fel bod gan bobl fynediad at dai da a diogel;

- adeiladau cyhoeddus yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn cynnal busnes yno;

- gweithloedd yn cael eu diogelu, fel bod pobl yn gallu teimlo'n ddiogel pan fyddont yn gweithio yno;

- rhwydweithiau cludiant yn cael eu diogelu, fel bod pobl a nwyddau'n gallu teithio rhwng llefydd yn rhwydd a diogel;

- yr amgylchedd ac adnoddau'r byd yn cael eu diogelu, fel ein bod yn gadael y byd yn well.

At hynny, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau ei fod yn:

- peidio â gwastraffu'r arian a'r adnoddau eraill a ymddiriedir iddo;
- cefnogi ei weithwyr i gyrraedd eu llawn botensial llawn a rhannu gwybodaeth a'u sgiliau gydag eraill.

## Ein Datganiad Cenhadaeth

**'Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi'.**

**Y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Yn bennaeth ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mae'r Prif Swyddog Tân, sydd â rheolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth, ac sy'n darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hon mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy gymryd rhan weithredol mewn partneriaethau diogelwch cymunedol, gweithio gyda phartneriaid i leihau'r achosion o droseddu a chamddefnyddio sylweddau.

Mae'n cefnogi gwasanaethau tân ac achub eraill yn y DU pan fo angen, ac mae'n barod trwy'r amser i amddiffyn ar adeg trychinebau mawr.

**Dyletswyddau Craidd**

Prif ddyletswyddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub, yw:

- Hyrwyddo diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth er mwyn atal tanau a marwolaethau oherwydd tân;
- Rhoi cyngor, pan wneir cais amdano, ynglŷn â sut i atal tanau a chyfyngu ar eu lledaeniad mewn adeiladau ac eiddo arall, ac ar ffyrdd i ddianc mewn achos o dân;
- Gwneud darpariaeth ar gyfer amddiffyn bywyd ac eiddo mewn achos o danau;
- Gwneud darpariaeth ar gyfer achub ac amddiffyn pobl rhag niwed difrifol mewn achos o ddamweiniau ar y ffyrdd;
- Ymateb i argyfyngau neu ddigwyddiadau eraill fel y bo'r angen er mwyn amddiffyn pobl, eiddo neu'r amgylchedd.

## Nodau Corfforaethol

Mabwysiadwyd y gyfres hon o bum nod corfforaethol gan yr Awdurdod yn 2001. Mae'n crynhoi pob agwedd ar yr hyn y mae Gwasanaeth Tân Ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio ei gyflawni trwy weithrediadau'r Gwasanaeth o ddydd i ddydd.

1. Atal tanau damweiniol a maleisus.

2. Amddiffyn pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân neu beryglon eraill.

3. Amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag cael niwed oherwydd tân a pheryglon eraill.

4. Ceisio ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r gymuned.

5. Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

## Gwerthoedd Craidd

Rydym yn rhoi gwerth ar

- Wasanaeth i'r gymuned
- Pobl
- Amrywiaeth
- Gwella

### Gwasanaeth i'r Gymuned

Rydym yn rhoi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned trwy

- Weithio gyda phob grŵp i leihau risg
- Trin pawb yn deg a pharchus
- Bod yn atebol i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu
- Ymdrechu i gael rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn

### Pobl

Rydym yn rhoi gwerth ar ein gweithwyr trwy arfer a hybu

- Tegwch a pharch
- Cydnabod rhinwedd
- Gonestrwydd, didwylledd a chydymddiriedaeth
- Datblygiad personol
- Cydweithio a bod yn gynhwysol

### Amrywiaeth

Rydym yn rhoi gwerth ar amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned trwy

- Drin pawb yn deg a pharchus
- Darparu atebion gwahanol ar gyfer gwahanol anghenion a disgwyliadau
- Hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth a dyrchafiad o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a chamwahaniaethu

### Gwella

Rydym yn rhoi gwerth ar bob lefel o'r Gwasanaeth trwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad trwy

- Gael meddwl agored
- Ystyried pob beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

## Ymgynghori ac Ymgysylltu

Yng Ngogledd Cymru, sefydlwyd rhwydwaith o Ymgynghorwyr Cydraddoldeb rhwng Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Ambiwlans, Ymddiriedolaeth GIG, Parc Cenedlaethol Eryri a'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn cydweithio ar ddigwyddiad i randdeiliaid. Arweiniodd hyn at ddigwyddiad ymgynghori ar y cyd a gynhaliwyd ym Medi 2011. Roedd y digwyddiad yn ymgysylltu â nifer o fudiadau sy'n gweithio trwy Ogledd Cymru ac sy'n gynrychioliadol o'r nodweddion gwarchodedig.

Craffwyd ar ganfyddiadau'r digwyddiad, ac maent wedi cyfrannu at lunio ein Hamcanion Cydraddoldeb. Amlinellir manylion y canfyddiadau yng Nghynllun Gweithredu CCS fel cysylltiad uniongyrchol i'r Amcanion Cydraddoldeb.

## Asesu ar gyfer Asesiad Risg Cydraddoldeb

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol fod dyletswydd i dalu 'sylw dyledus' yn cael ei ddangos yn y broses benderfynu. Mae asesu'r effaith bosib o ran cydraddoldeb ar bolisïau, gweithdrefnau ac arferion yn un o'r ffyrdd allweddol lle gall awdurdodau cyhoeddus ddangos 'sylw dyledus'.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn asesu'r effaith y gallai eu penderfyniadau polisi ac ariannol eu cael ar y grwpiau gwarchodedig newydd lle bo hynny'n berthnasol ac yn gymesur, ac mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trwy ddefnyddio offeryn Asesu Effaith.

Byddwn yn cyhoeddi copïau o'r Asesiadau Risg Cydraddoldeb ar ein gwefan gorfforaethol.

## Monitro ac Adrodd ar Gynnydd y Cynllun Strategol hwn

Byddwn yn monitro pa mor dda yr ydym yn perfformio mewn perthynas â'r amcanion yr ydym wedi eu datblygu trwy fframwaith rheoli perfformiad y Gwasanaeth.

Byddwn yn llunio adroddiad blynyddol i amlinellu'r hyn a wnaethom yn y flwyddyn flaenorol, a pha gamau sydd gennym yn yr arfaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd grwpiau cymunedol a rhwydweithiau staff yn cael cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad hwn ac i wneud awgrymiadau ar ffyrdd i wella.

Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn.

**Gweithdrefn Gwyno**

Ein prif amcan yw darparu gwasanaeth o safon uchel sy'n gost-effeithiol ac yn effeithlon o fewn ardal Gogledd Cymru ar gyfer pobl Gogledd Cymru. Fodd bynnag, derbynnir bod pethau'n mynd o'i le o bryd i'w gilydd. Ar adegau o'r fath, ein dyletswydd ni yw cywiro pethau.

Mae ein gweithdrefn gwyno yn ei lle er mwyn cael gwelliannau parhaus ymhob rhan o'r gwasanaeth. Rydym yn ymdrechu'n gyson i wella hyder a bodlonrwydd y cyhoedd. Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i bob cwyn yn drylwyr, a monitro'r cwynion ymhob agwedd ar gydraddoldeb.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn, gallwch wneud hynny unrhyw bryd ac mewn unrhyw ffordd, ar y ffôn, trwy'r post neu'n bersonol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Post: | Rheolwr Dyletswydd yr Ystafell Reoli<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd<br>Crud y Dderwen,<br>Ffordd William Morgan<br>Parc Busnes Llanelwy<br>LLANELWY<br>Sir Ddinbych<br>LL17 OJG | Ffôn:<br><br>Ffacs:<br><br>E-bost: | 01745 535805<br><br>01745 536412<br><br>cwynion@gwastan-gogcymru.org.uk |

**Sut i gysylltu â ni**

Os ydych yn dymuno rhoi adborth inni neu wneud awgrym, neu os ydych yn dymuno cael copi mewn diwyg arall, cysylltwch â:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Post: | Yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>LLANELWY<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ | Ffôn:<br><br>Ffacs:<br><br>Ebost: | 01745 535266<br><br>01745 535296<br><br>sue.jones@gwastan-gogcymru.org.uk |

## Amcanion Cydraddoldeb

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 3*** | ***gosod a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 3(2)*** | ***cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 4*** | ***llunio ac adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 13*** | ***adolygu'r holl drefniadau a wneir dan y Rheoliadau*** |
| ***Rheoliad 14*** | ***ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) erbyn Ebrill 2012*** |
| ***Rheoliad 15*** | ***bydd yr Awdurdod yn llunio ac yn adolygu'r CCS*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ynglŷn â chasglu data perthnasol*** |

***Gosod Amcanion Cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adrodd ynglŷn â chynnydd y Cynllun.***

| **Amcan 1** | Gosod a monitro'r Amcanion Cydraddoldeb sydd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac adolygu'r Amcanion cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd, ac adrodd ar y cynnydd bob blwyddyn. Cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pob Amcan. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Mae'r Amcanion Cydraddoldeb sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi eu seilio ar dystiolaeth, a hwnnw wedi ei chael trwy naill ai gynnwys neu ymgynghori, yn benodol gyda'r rhai sy'n cynrychioli neu'n rhannu'r naw o nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010. Wedi ei gosod yn y Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru), ac yn cael ei gefnogi ganddynt. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar yr Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau busnes yr adrannau perthnasol. Bydd yr amcanion yn rhan o'r mecanwaith adrodd busnes, gan adolygu cynnydd bob chwarter. Bydd yr Amcanion yn arwain at sicrhau bod yr Awdurdod yn canolbwyntio ei adnoddau ar bobl fregus yn y gymuned a staff yr Awdurdod, sy'n gynrychioliadol o un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. |
| Camau Arfaethedig | • Nodi swyddogion arweiniol ar gyfer pob un o'r Amcanion Cydraddoldeb, ac ymgorffori hynny yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol.<br>• Sefydlu mecanwaith adrodd y cytunir arno ar gyfer yr Amcanion Cydraddoldeb.<br>• Bydd y swyddogion arweiniol yn ymgorffori'r amcanion yng nghynlluniau busnes blynyddol adrannau, ac yn adrodd am y cynnydd bob chwarter mewn cyfarfodydd cynllunio busnes.<br>• Llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ar gynnydd yr Amcanion Cydraddoldeb.<br>• Llunio a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol gydag Amcanion Cydraddoldeb. |

| | |
|---|---|
| Mesur Llwyddiant | Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn y cylch cynllunio busnes, gyda'r swyddogion arweiniol yn adrodd am y cynnydd bob chwarter ymhob cyfarfod cynlluniau busnes mewn perthynas â phob amcan. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei lunio a'i fonitro gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb trwy gynlluniau busnes adrannol rheolwyr unigol. Bydd y CCS yn cael ei adolygu'n flynyddol, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn gosod Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cefnogi ein hamcanion gwella, ac yn cael eu monitro bob chwarter trwy broses y gyllideb a chynllunio busnes, a byddant yn cael eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân ac Achub. Wedi hynny, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gadw dan arolwg blynyddol, ac yn derbyn arolwg llawn cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd.*

***Rheoliad 4*** ***sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu***

***Rheoliad 5*** ***gofyniad i gydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu***

***Trefniadau Ymgysylltu a Chynnwys***

| **Amcan 2** | Datblygu Strategaeth Ymgynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r cyhoedd a staff yr Awdurdod sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion a warchodir ac y mae ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau. Bydd y Strategaeth yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgysylltu â grwpiau sy'n dod dan un neu ragor o'r naw o nodweddion a warchodir. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Mae'r Dyletswyddau Penodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys pobl y mae penderfyniadau, polisïau a'r gweithdrefnau'r Awdurdod yn effeithio arnynt, ac ymgynghori â hwy. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Dylai datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu dilynol gael ei oleuo gan ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r staff ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dod dan un neu ragor o'r naw nodwedd warchodedig. Bydd ymgynghori a chynnwys yn arwain at amcanion realistig sy'n cael eu goleuo gan aelodau o'r cyhoedd a'r staff. |
| Camau Arfaethedig | • Adnabod adrannau sydd â gofyniad i ymgynghori ac ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd.<br>• Adnabod yr wybodaeth sydd ei hangen ar bob adran trwy broses ymgynghori.<br>• Adnabod swyddog i arwain a llunio strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu.<br>• Datblygu fforwm cyfeillion beirniadol/ymgynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid a staff sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r |

| | |
|---|---|
| | Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r grŵp fod yn gynrychioliadol o'r naw nodwedd warchodedig. |
| Mesur Llwyddiant | • Pan fo gennym Strategaeth Ymgynghori Awdurdod yn ei lle sy'n ymgorffori ac yn diwallu anghenion pob parti sydd â diddordeb.<br>• Pan fo gan yr Awdurdod ddefnydd o Fforwm Cyfeillion Beirniadol/Ymgynghori er mwyn hwyluso ymgynghoriad ar bolisïau, arferion a gweithdrefnau. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Caiff swyddog arweiniol ei adnabod i berchnogi ar y strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu; bydd yr arweinydd yn gyfrifol am lunio'r strategaeth a sefydlu grŵp o gyfeillion beirniadol/fforwm ymgynghori. Hefyd, bydd gofyn i'r swyddog arweiniol ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio cysylltiadau cyfredol gyda'r cyhoedd er mwyn ymgysylltu ac ymgynghori. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn sefydlu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, bydd y strategaeth hon yn edrych ar y ffordd yr ydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn edrych ar ffyrdd o wella'r broses, a defnyddio'r ffyrdd cyfredol o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig oedolion a phlant bregus. Bydd y strategaeth yn ystyried defnyddio grŵp cyfeillion beirniadol neu ymgynghoriad partneriaeth.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 5*** | ***darpariaethau ymgysylltu*** |
| ***Rheoliad 7*** | ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob blwyddyn adrodd ar gasglu data perthnasol*** |

***Casglu Data'r Awdurdod***

| **Amcan 3** | Dadansoddi'r modd y mae'r Awdurdod yn casglu data am Gyflwyno Gwasanaethau, a'r modd y cânt eu defnyddio i oleuo'r modd y byddwn yn Cyflwyno Gwasanaethau yn y dyfodol, a gwella. Adnabod ffyrdd i ddal y data coll perthnasol, a datblygu proses ar gyfer casglu'r data. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | • Cymryd rhan mewn proses o welliant parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Sicrhau ein bod yn casglu'r data angenrheidiol a pherthnasol, a bod y data'n cyfateb i un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bod y data a gasglwn yn cael ei fesur, a'u bod yn berthnasol ac yn goleuo'r modd y byddwn yn Cyflwyno Gwasanaethau i rannau bregus o'r gymuned yn y dyfodol. |
| Camau Arfaethedig | • Dadansoddi'r modd y mae data am Gyflwyno Gwasanaethau'n cael eu dal ar hyn o bryd.<br>• Adnabod y bylchau yn y data a gesglir ar hyn o bryd.<br>• Adnabod ffyrdd y gall yr Awdurdod ddal y data coll perthnasol, a'i defnyddio i oleuo'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno yn y dyfodol.<br>• Adnabod gweithgareddau sy'n cefnogi cydymffurfiad â'r Ddyletswydd Gyffredinol. |
| Mesur Llwyddiant | Sicrhau bod yr holl ddata a gasglwn yn gadarn a pherthnasol, ac yn cael eu defnyddio i oleuo'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno yn y dyfodol. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Diogelwch Tân, Gweithrediadau a'r Ystafell Reoli sy'n gyfrifol am ddal y data perthnasol am Gyflwyno Gwasanaethau. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn dadansoddi'r data am Gyflwyno Gwasanaethau yr ydym yn eu casglu ar hyn o bryd, a sicrhau ein bod yn casglu'r data hyn, lle bo modd, yn ôl un neu ragor o nodweddion gwarchodedig. Bydd y data a gasglwn yn gymorth i oleuo ac arwain ein ffordd o ddarparu gwasanaethau i bobl fregus yn y dyfodol.*

***Rheoliad 5*** ***darpariaethau ymgysylltu***
***Rheoliad 7*** ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.***

***Sicrhau Ansawdd y ffordd sefydledig o Ymgysylltu â Chymunedau***

| **Amcan 4** | Sicrhau bod yr Awdurdod yn craffu ar y modd yr ymgysylltir ar hyn o bryd ag aelodau o'r cyhoedd, a bod y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn cael ei sicrhau o ran ansawdd, ac yn berthnasol i'r gynulleidfa darged. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnwys ac ymgynghori â'r bobl y mae'r Awdurdod yn ystyried eu bod yn cynrychioli un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr adborth a geir wrth ymgysylltu yn goleuo Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol, ac yn gymorth i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod. |
| Camau Arfaethedig | • Sicrhau bod mesurau sicrwydd ansawdd yn eu lle er mwyn dilysu'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd, a'u bod yn cael eu mesur gan un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.<br>• Sefydlu proses fonitro i fesur y data a dynnir o'r broses sicrwydd ansawdd.<br>• Dadansoddi'r data, a sicrhau bod y data sy'n gofyn am gamau yn cael eu bwydo i'r cylch nesaf o gynllunio Amcanion Cydraddoldeb. |
| Mesur Llwyddiant | Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo pan fydd y data a gesglir trwy'r broses sicrwydd ansawdd yn bwydo trwodd i Amcan Cydraddoldeb. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Creffir ar yr wybodaeth a gesglir gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol, a bydd camau'n cael eu bwydo i'r rheolwr priodol i'w gweithredu yn ôl y gofyn. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Byddwn yn sicrhau ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn defnyddio'r cyfle i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cyson sy'n diwallu anghenion pawb sy'n ei dderbyn.  Ni ddylid colli cyfle i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu a sut y gallwn wella'r gwasanaeth.*

***Rheoliad 5*** ***darpariaethau ymgysylltu***
***Rheoliad 7*** ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.***

***Rhannu Gwybodaeth***

| **Amcan 5** | Archwilio'r wybodaeth a gesglir gan yr Awdurdod ac a rennir ag asiantaethau eraill. Sicrhau bod yr wybodaeth am droseddau casineb sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ar gael i'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, a bod proses yn ei lle ar gyfer cynghori dioddefwyr. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Sicrhau bod yr Awdurdod yn cyfrannu at adeiladu cymunedau cryfach, mwy diogel a cydlynol, tra'n cynorthwyo i warchod y bobl mwyaf bregus rhag troseddau casineb, yn enwedig tanau bwriadol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | • Lleihau'r achosion o losgi bwriadol a throseddau sy'n gysylltiedig â chasineb.<br>• Cynyddu'r amddiffyniad i unigolion bregus. |
| Camau Arfaethedig | Dadansoddi'r data sydd gennym ar hyn o bryd, ac ystyried pa ddata a rennir mewn perthynas â throseddau casineb. |
| Mesur Llwyddiant | Pan fo gweithdrefnau yn eu lle i ddal a rhannu data perthnasol, a bod gennym ni, fel Awdurdod, bolisi/gweithdrefn ddiffiniedig yn ei lle ar gyfer ymdrin â throseddau casineb wedi eu hanelu at nodweddion gwarchodedig penodol. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Y Rheolwr Diogelwch Tân Cymunedol a'r Rheolwr Lleihau Llosgi Bwriadol. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Wrth archwilio'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau ein bod yn edrych yn benodol ar droseddau casineb sydd wedi eu hanelu'n benodol at nodweddion gwarchodedig penodol. Bydd yr Awdurdod yn asesu a oes mwy y gall ei gyfrannu i warchod grwpiau bregus mewn perthynas â thanau bwriadol.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 6*** | ***argaeledd gwybodaeth gyhoeddedig*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ar gasglu'r data perthnasol*** |

***Argaeledd gwybodaeth***

| **Amcan 6** | Bydd yr Awdurdod yn gwneud yr wybodaeth y mae gofyn iddo ei gadw ar gael mewn ffordd hawdd cael gafael arni pan fo personau sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig yn gwneud cais amdani. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | • Sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at wybodaeth a fydd o gymorth i'w galluogi i fyw bywydau diogel a sicr.<br>• Gall pob aelod o'n cymunedau gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Awdurdod ar gyfer cynnwys ac ymgynghori, gan ddefnyddio dull cyfathrebu o'u dewis hwy.<br>• Gall cymunedau sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg gael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch tân yn y cartref.<br>• Gall cymunedau busnes sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg gael mynediad at wybodaeth am ddiogelwch tân deddfwriaethol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Gall pob aelod o'r gymuned gael mynediad at wybodaeth sy'n eu galluogi i fyw a gweithio mewn amgylchedd diogel a sicr; bydd hyn yn cynnwys cymunedau sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg ac sydd angen gwybodaeth ddeddfwriaethol a chymunedol. |
| Camau Arfaethedig | • Adnabod y cymunedau a'r diwyg gwybodaeth sydd ei angen.<br>• Ymchwilio i argaeledd gwybodaeth mewn diwyg gwahanol sydd gan ATAau eraill, a chael gafael arni os oes modd.<br>• Adnabod adnoddau cyfieithu, cyllid a chyhoeddi eraill.<br>• Yn ôl y galw, blaenoriaethu'r wybodaeth i'w darparu. |
| Mesur Llwyddiant | Diwallu anghenion cymunedau sy'n gwneud ceisiadau am ddiwyg gwahanol, a bod pob gwybodaeth ar gael yn hawdd i bob cymuned. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Cyfrifoldeb Cyfathrebu Corfforaethol, y Swyddog Iaith Gymraeg, Diogelwch Tân a TGCh fydd cyhoeddi diwygiau gwahanol, cyfieithu a mynediad ar y we. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Mae'r dyletswyddau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd, ac i sicrhau bod yr wybodaeth yn hygyrch i bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys mynediad ar y we, gyda thaflenni a dalenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu gan yr Adrannau Diogelwch Tân Deddfwriaethol a Chymunedol a Chyfathrebu Corfforaethol.*

### *Asesiad Risg Cydraddoldeb*

| **Amcan 7** | Rhaid i broses Asesu Effaith Cydraddoldeb yr Awdurdod gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a sicrhau bod staff wedi cael eu hyfforddi i gynnal Asesiadau Risg Cydraddoldeb. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Rhaid i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol i asesu effaith tebygol ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol 2010 a Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru). |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr Awdurdod yn cynnal ac yn cyhoeddi canlyniadau ARCau a gynhaliwyd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2001 a Dyletswyddau Penodol (Cymru) 2011. |
| Camau Arfaethedig | • Diweddaru proses ARC yr Awdurdod i gyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru)<br>• Sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ym Mhroses yr ARC. |
| Mesur Llwyddiant | Bod pob proses, gweithdrefn a pholisi yn agored i lymder Sgriniad Cychwynnol ARC. Lle bo canlyniadau'n dangos effaith negyddol ar grŵp sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchodedig, cynhelir ARC llawn. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Bydd pob rheolwr a gweithiwr sydd â chyfrifoldeb am bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau yn cynnal ARC cychwynnol. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Byddwn yn diweddaru ac yn cyflwyno proses ddiwygiedig i Asesu Risg Cydraddoldeb, a sicrhau bod yr holl staff sydd â chyfrifoldeb am lunio polisïau a gweithdrefnau yn derbyn hyfforddiant ar y broses newydd. Bydd pob ARC sydd wedi ei gwblhau ar gael ar y fewnrwyd a gwefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.*

***Rheoliad 7*** ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol***
***Rheoliad 9*** ***casglu ac adrodd gwybodaeth am weithwyr***
***Rheoliad 16*** ***cyhoeddi adroddiad ymhob blwyddyn adrodd ynglŷn â chasglu data perthnasol***

***Casglu ac Adrodd Data Cyflogaeth***

| **Amcan 8** | Erbyn 31ain Mawrth ymhob blwyddyn, gan ddechrau yn 2013, rhaid i Awdurdod casglu a chyhoeddi, wybodaeth cyflogaeth am y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. |
|---|---|
| | |
| | Rhaid i Awdurdod gyhoeddi cynllun i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth mewn cyflogau.<br><br>• nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod ar 31ain Mawrth ymhob blwyddyn yn ôl pob nodwedd warchodedig;<br>• dynion a merched a gyflogir, yn ôl<br>  • swydd<br>  • graddfa, ond dim ond lle bo Awdurdod yn gweithredu system raddio mewn perthynas â'i weithwyr<br>  • cyflog<br>  • math o gytundeb (gan gynnwys cytundebau parhaol neu gyfnod sefydlog, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini)<br>  • patrwm gwaith (gan gynnwys trefniadau gweithio llawn amser, rhan amser neu drefniadau hyblyg eraill, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini)<br>  • pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf (ac eithrio pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod)<br>  • gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan adnabod faint a fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint na fu<br>  • gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant, a nifer y rhai a fu'n llwyddiannus (neu fel arall) yn eu cais<br>  • gweithwyr yr Awdurdod sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant<br>  • gweithwyr yr Awdurdod sydd naill ai yn rhan o weithdrefnau cwyno oherwydd eu bod yn rhywun a wnaeth gyhuddiad yn erbyn rhywun arall, neu eu bod rhywun y gwnaed cyhuddiad yn ei erbyn<br>  • gweithwyr sy'n agored i achos disgyblu<br>  • gweithwyr yr Awdurdod sydd wedi gadael swydd gyda'r Awdurdod |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, a chasglu'r holl ddata cyflogaeth angenrheidiol |

| | |
|---|---|
| Camau Arfaethedig | • Adolygu'r broses gyfredol, a sefydlu ansawdd a pherthnasedd y data a gesglir.<br>• Lle bo bylchau wedi eu nodi, bydd yr adrannau perthnasol yn sefydlu prosesau i gasglu'r data. Adnabod tueddiadau sy'n dangos effaith negyddol pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, a gwneud cynlluniau gweithredu i adnabod ffyrdd i gywiro. |
| Mesur Llwyddiant | Casglu a dadansoddi data cadarn, a'u defnyddio yn sail i brosesau gwella gweithwyr. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Staff perthnasol AD, Hyfforddi a Rheolwr Perfformiad. |

*Ni all Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i unrhyw weithiwr nac ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth am eu nodweddion gwarchodedig.*

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn cynnal awdit o'r data cyflogaeth yr ydym yn ei chasglu ar hyn o bryd, ac yn sicrhau ein bod yn casglu data am bob un o'r nodweddion gwarchodedig. Ar hyn o bryd, mae rhai data am weithwyr yn cael eu casglu a'u hadrodd trwy Gynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ogystal ag Ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae angen i AD gynnal rhaglen barhaus i Wirio Data er mwyn sicrhau bod y data'n gywir.*

***Rheoliad 10*** ***ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ei weithwyr o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol***

***Hyfforddi Staff ar y Ddyletswydd Gyffredinol***

| **Amcan 9** | Cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant Cydraddoldeb i adnabod y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen gan y staff wrth gyflawni eu dyletswyddau. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | • Cynnal dadansoddiad i asesu anghenion hyfforddi cydraddoldeb staff yr ochr weithredol a chefnogol.<br>• Defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad yn uniongyrchol i ddyfeisio rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r anghenion a welwyd. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Mae'n un o ofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus sicrhau bod eu staff yn derbyn Hyfforddiant Cydraddoldeb yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Camau Arfaethedig | • Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi cydraddoldeb, a sicrhau bod y pecynnau hyfforddiant sydd wedi eu teilwra i ofynion perthnasol y staff unigol wedi cael eu hymchwilio a'u cynllunio, a bod rhaglen hyfforddiant yn cael ei gweithredu dros gyfnod derbyniol o amser.<br>• Bod mewn cysylltiad â GTA y Canolbarth a'r Gorllewin, a'r De, i rannu cost pecynnau hyfforddi arfaethedig. Ceisio cyfleoedd i wneud cais am gyllid. |
| Mesur Llwyddiant | Pan fo holl anghenion yr Awdurdod mewn perthynas â hyfforddi wedi cael eu hadnabod, a rhaglen hyfforddiant wedi ei threfnu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o Ddyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Rheolwr Hyfforddiant, ar y cyd â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a'r dyletswyddau yn y rheoliadau Sector Cyhoeddus ymysg ei weithwyr. Er mwyn galluogi'r amcan hwn i gael ei gyflawni, bydd yr Awdurdod yn cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y dadansoddiad yn adnabod anghenion y staff o ran hyfforddiant cydraddoldeb sy'n rôl-benodol. Wedi cwblhau hynny, bydd y broses yn annog staff unigol i osod amcanion personol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chaiff hynny ei fonitro trwy'r Adolygiadau Datblygiad Unigol.*

### *Rheolilad 11 a 12 cyflog cyfartal a chynlluniau gweithredu*

### *Cyflog Cyfartal*

| **Amcan 10** | Mae'r Ddeddf Lleoliaeth a ddaeth i fodolaeth yn Nhachwedd 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau erbyn 31ain o Fawrth 2012 a phob blwyddyn ariannol wedi hynny, gan ddarparu gwybodaeth am y flwyddyn ariannol ganlynol. |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad polisi cyflogau ymwneud ag agweddau gwahanol ar bolisi taliadau, a rhaid iddo gynnwys y canlynol:<br>• polisi awdurdod lleol ar lefel ac elfennau taliadau i bob prif swyddog;<br>• polisi awdurdod lleol ar daliadau i'w weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf (ynghyd â'i ddiffiniad o "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf", a'i resymau dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw);<br>• polisi awdurdod lleol ar y berthynas rhwng y taliadau i'w brif swyddogion a swyddogion eraill;<br>• polisi awdurdod lleol ar agweddau penodol ar daliadau prif swyddogion; talu wrth gael eu recriwtio, codiadau ac ychwanegiadau i'r tâl, defnydd o gyflog yn seiliedig ar berfformiad a bonysau, taliadau ar derfynu swydd, a thryloywder. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Rhaid i'r datganiad gynnwys:<br>• y diffiniad o'r "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf" a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i ddiben y datganiad; a<br>• rhesymau'r awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw. |
| Camau Arfaethedig | • Dadansoddi'r data am gyflogau a'r telerau a'r amodau cyfredol<br>• Llunio Datganiad Polisi Cyflogau sy'n ymwneud â'r holl staff |
| Mesur Llwyddiant | Caiff y Datganiadau Polisi Cyflogau ei ysgrifennu gyda'r Undebau, gan ymgynghori â hwy. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Y Rheolwr Cyllid fydd yn gyfrifol am ymchwilio i'r Datganiad Polisi Cyflogau a'i lunio. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Mae'r Ddeddf Lleoliaeth a ddaeth i fodolaeth yn Nhachwedd 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyhoeddi Datganiad Cyflog Cyfartal erbyn 31ain o Fawrth 2012 a phob blwyddyn ariannol wedi hynny, gan ddarparu gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Nawr, bydd y Gwasanaeth yn lunio Datganiad Polisi Cyflogau. Byddwn yn sicrhau bod y polisi'n deg ac yn gyfartal ar draws y rhywiau a'r nodweddion gwarchodedig eraill.*

***Rheoliad 18 caffael cyhoeddus***

***Caffael***

| **Amcan 11** | Cydymffurfio â'r rheoliad Caffael sydd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a hynny er mwyn sicrhau bod gennym broses gaffael deg ac archwiladwy sy'n ymgorffori un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig |
|---|---|
| | |
| Rheswm | Pan fo gofyn i'r Awdurdod gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, bydd yn:<br>• talu sylw dyledus i p'un ai yw'n briodol i'r meini prawf ar gyfer y cytundeb hwnnw gynnwys ystyriaethau i gynorthwyo i gwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol;<br>• talu sylw dyledus i p'un ai yw'n briodol i wneud amodau mewn perthynas â perfformiad y cytundeb i gynorthwyo i gwrdd â thri nod y ddyletswydd gyffredinol;<br>• lle bo modd, ystyried BBaCh (Busnes Bach a Chanolig) fel cyflenwyr. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Sicrhau bod cyflenwadau a gwasanaethau a ddarperir yn cael eu caffael gan sefydliadau parchus a theg. |
| Camau Arfaethedig | • Asesu'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r gofynion cyfreithiol.<br>• Dyfeisio holiadur cyn-cymhwyso a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bod y gofynion yn gymesur â maint y cytundeb. |
| Mesur Llwyddiant | Yn dilyn asesu'r sefyllfa gyfredol, gallwn ddangos ein bod yn gweithio tuag at gydymffurfio â'r gyfraith. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Yr adrannau caffael perthnasol: Rheolwyr y Storfa, Ystadau a Chaffael, Rheolwr y Fflyd a TGCh. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r broses gaffael gyfredol, ac yn sicrhau bod yr Awdurdod, pan fo'n caffael nwyddau a gwasanaethau, yn talu sylw dyledus i'r meini prawf dyfarnu, gan gynnwys perthnasedd y modd y mae'r cyflenwyr yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Bydd holiaduron cyn-dyfarnu yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bod y gofynion yn gymesur â maint y cytundeb. Lle bo contractwyr llai yn cael cytundebau, byddant yn fodlon cydymffurfio â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth tra'n gweithio i'r Gwasanaeth ac ar Eiddo'r Awdurdod.*